# Pecyn Ymgeisio

## Darlithydd mewn Saesneg (TGAU/Cymhwyster Sgiliau Hanfodol) Cyfnod Mamolaeth

**Contract 0.8, cyfnod penodol**
**(Mis Medi 2024 tan fis Ebrill 2025)**

**Dyddiad Dechrau: Medi 2024**



Mawrth 2024

Annwyl ymgeisydd,

Diolch am fynegi diddordeb mewn cyflwyno cais ar gyfer y swydd hon. Gobeithiaf y bydd yr wybodaeth ganlynol am y Coleg a'r adran yn ddefnyddiol o ran penderfynu a hoffech chi gyflwyno cais ai peidio.

Rwy'n hynod o falch o arwain y tîm Saesneg a Mathemateg ar draws Coleg Gwent. Rydym yn cynnig arweiniad, cymorth a datblygiad parhaus ardderchog i'n haelodau staff wrth weithio mewn amgylchedd hynod gynhwysol. Yn gyfnewid am hyn, gofynnwn am eich ymrwymiad i gyflawni rhagoriaeth, eich gallu i ysbrydoli pobl eraill ac angerdd am eich pwnc.

Os hoffech chi gael sgwrs anffurfiol ynghylch y swydd, e-bostiwch Surija Khatun, Arweinydd Dysgu Saesneg: Surija.Khatun@coleggwent.ac.uk

Os byddwch chi'n cael eich penodi, byddwch yn sicr yn cael eich croesawu i dîm cyfeillgar a chefnogol o aelodau staff dawnus ac ymrwymedig.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych chi.

Yn gywir,



Mark Harding
**Pennaeth Saesneg, Mathemateg a Sgiliau**

# Gwybodaeth am y rôl – beth rydyn ni'n chwilio amdano?

Mae Coleg Gwent yn chwilio am Ddarlithydd mewn Saesneg sy'n ysbrydoledig a brwd sy'n gallu ymuno â'n tîm ymroddedig o weithwyr proffesiynol yn ein coleg. Mae hwn yn gyfle cyffrous i ymuno ag adran uchel ei chyflawniad a blaenllaw o fewn coleg hynod lwyddiannus.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi profi llwyddiant sylweddol o ran penodi aelodau staff sy'n symud o ysgolion. Rydym yn deall y gall symud i faes addysg bellach fod yn frawychus ar y dechrau ond rydym yn darparu lefel sylweddol o gymorth ac arweiniad ar bob cam o'r daith.

Byddwch chi'n athro/athrawes ymrwymedig ac ysbrydoledig sy'n meddu ar hanes o ymarfer ardderchog yn yr ystafell ddosbarth a sy'n meddu ar uchelgais i brofi cynnydd gyrfa pellach. Mae'r rôl hefyd yn rhoi cyfle ardderchog i chi ddatblygu eich sgiliau mewn coleg cefnogol a chynyddol.

Byddwch chi'n gweithio fel rhan o dîm o weithwyr proffesiynol ymroddedig dan arweiniad Arweinydd Dysgu Saesneg i sicrhau addysgu a darpariaeth o safon uchel i ddysgwyr ar draws yr ystod gallu lawn yn yr adran fawr a deinamig hon.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn aelod o'r tîm sy'n cyflwyno cyrsiau TGAU Saesneg a Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol. Yn y rôl hon, byddwch chi'n datblygu sgiliau Saesneg traddodiadol y dysgwr megis sgiliau lleferydd, cyflwyno, darllen ac ysgrifennu.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio pedwar diwrnod yr wythnos o ddydd Mawrth i ddydd Gwener.

# Dull penodi

Os byddwch chi’n cael eich cynnwys ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, bydd y broses fel a ganlyn:

30 i 45 munud ar gyfer microaddysgu

30 munud ar gyfer tasg sy’n ymwneud â gwaith

30 munud ar gyfer prawf gwybodaeth am y pwnc

30 munud ar gyfer cyfweliad ffurfiol

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau yn y swydd ym mis Medi 2024.

# Gwybodaeth am yr Adran Saesneg a Mathemateg yn Coleg Gwent

Mae’r Adran Saesneg a Mathemateg yn Coleg Gwent yn adran lwyddiannus a bywiog sydd ag ethos brwd am waith tîm a chyflawniad uchel. Mae’n adran ledled y coleg sy’n gwasanaethu cyrsiau academaidd a chyrsiau galwedigaethol gan gynnig cyrsiau TGAU a/neu Sgiliau Hanfodol ar gyfer dysgwyr nad ydynt wedi ennill gradd C neu uwch ar gyfer TGAU Iaith Saesneg neu TGAU Mathemateg.

Mae gan yr adran ddau faes dysgu sef Mathemateg a Saesneg sydd dan arweinyddiaeth y Pennaeth Saesneg a Mathemateg. Mae’r Pennaeth Saesneg a Mathemateg wedi’i gefnogi yn ei rôl gan Arweinydd Dysgu: Mathemateg – TGAU / Sgiliau Hanfodol ac Arweinydd Dysgu: Saesneg – TGAU / Sgiliau Hanfodol.

Mae gan yr Adran lawer o adnoddau gan gynnwys byrddau gwyn rhyngweithiol a thaflunyddion mewn nifer o ystafelloedd dosbarth. Mae wedi trawsnewid yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym wedi cyflwyno ymagwedd fwy cysyniadol o ran cyflwyno Saesneg er mwyn rhoi’r cyfle gorau posibl i ddysgwyr ennill eu cymwysterau. Mae pob cynllun dysgu yn arloesol o ran paratoi dysgwyr ar gyfer gofynion cymhwyster TGAU Iaith Saesneg.

Mae pob dysgwr sy’n astudio ar gwrs TGAU Saesneg yn dilyn yr un Cynllun Dysgu sy’n arwain at bob dysgwr yn sefyll y cymhwyster TGAU Iaith Saesneg ym mis Mai/Mehefin. Mae targedau’r adran yn seiliedig ar ddilyniant graddau yn hytrach na graddau A* i C.

Coleg Gwent

# Disgrifiad swydd

## Darlithydd mewn Saesneg (TGAU / Sgiliau Hanfodol) – Cyfnod Mamolaeth

**Adran:** Saesneg a Mathemateg

**Lleoliad:** Crosskeys

**Atebol i:** Arweinydd Dysgu - Saesneg

**Diben y swydd**:

Fel Darlithydd mewn Saesneg, byddwch chi'n gyfrifol am addysgu Saesneg ar draws ystod o gyrsiau, gan gynnwys cyrsiau TGAU a Sgiliau Hanfodol. Byddwch chi'n ymuno â'r tîm Saesneg a Mathemateg traws-golegol sy'n gyfrifol am gyflwyno cyrsiau Saesneg a Mathemateg i ddysgwyr mewn ysgolion gwahanol, o oedrannau gwahanol ac ar ddulliau astudio gwahanol.

**Addysgu ac Asesu**:

1. Gweithredu strategaethau addysgu effeithiol ar amrywiaeth o gyrsiau a rhaglenni.

2. Cyflwyno strategaethau addysgu gan ddefnyddio amrywiaeth o fethodolegau addysgu i gyd-fynd â gwahanol lefelau o allu a gofynion meysydd a gweithgareddau cwricwlwm gwahanol.

3. Paratoi a diweddaru cynnwys, deunyddiau ac aseiniadau cyrsiau i sicrhau eu bod yn berthnasol i'r sefyllfa ddysgu a mentrau'r cwricwlwm.

4. Addysgu ar gyrsiau amser llawn, cyrsiau rhan-amser yn ystod y dydd a chyrsiau gyda'r nos yn ôl yr angen.

5. Cymryd cyfrifoldeb am diwtora cwrs/personol a chynorthwyo â lles, arweiniad, cwnsela ac anwytho dysgwyr yn ôl yr angen.

6. Asesu, cofnodi a gwerthuso cynnydd dysgwyr a gwaith cwrs a rhoi adborth ac arweiniad adeiladol i annog dysgu a gwella ansawdd profiad dysgu i ddysgwyr.

7. Sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn gweithgareddau cyfoethogi a gwasanaethau cymorth perthnasol.

8. Goruchwylio a chymryd cyfrifoldeb am brosiectau ymarferol mewnol ac allanol yn y Coleg ac ymweliadau â lleoliadau amgen.

**Ansawdd, Datblygu a Marchnata**

1. Cynnal gweithgareddau dilysu mewnol/allanol a chydymffurfio â'r systemau a'r prosesau ansawdd mewnol.

2. Gweithio gyda chydweithwyr i ddatblygu cyrsiau yn ôl yr angen er mwyn bodloni gofynion lleol, diwydiannol a masnachol.

3. Cysylltu ag ystod o asiantaethau yn ôl yr angen, megis lleoliadau gwaith myfyrwyr ac ysgolion sy'n bwydo i mewn i'r Coleg.

4. Cymryd rhan weithredol wrth farchnata a hyrwyddo gweithgareddau.

5. Cymryd rhan mewn Digwyddiadau Agored yn ôl yr angen a chymryd rhan yn y broses cynnal cyfweliadau a dethol darpar ddysgwyr.

**Cyfraniad at y tîm**

1. Mynychu cyfarfodydd a chyfrannu atynt.

2. Cefnogi cydweithwyr a chynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu gweithio fel tîm.

3. Rhoi adborth adeiladol, cyson i Uwch-arweinydd y Cwricwlwm – Sgiliau a rheolwyr eraill yn ôl yr angen.

4. Rhoi cyngor, arweiniad a chymorth i aelodau staff, o fewn ysgol benodedig, er mwyn plannu cyfleoedd i ddatblygu ac asesu sgiliau Saesneg/llythrennedd dysgwyr o fewn y cwricwlwm.

**Gweinyddiaeth**

1. Cynnal a chadw cofrestrau cywir a dogfennaeth gysylltiedig yn unol â Gweithdrefnau Ariannol

2. Rheoli cofnodion dysgwyr yn unol â gweithdrefnau Gwasanaethau Gwybodaeth Rheolwyr

3. Bodloni gofynion gweinyddol cyrff dilysu ac arholi

**Polisi a Gweithdrefn**

1. Cydymffurfio â holl bolisïau a gweithdrefnau'r Coleg, gan gynnwys Rheoliadau a Gweithdrefnau Ariannol.

2. Sicrhau cyfle cyfartal o ran cyflenwi gwasanaeth a chynnwys cyrsiau.

3. Cyflawni pob dyletswydd yn unol â'r polisi Iechyd a Diogelwch a chynnal asesiadau risg yn ôl yr angen.

4. Sicrhau bod pob gweithgarwch yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

5. Hyrwyddo gwerthoedd craidd y Coleg a'u hymgorffori ym mhob agwedd ar y rôl.

6. Cyfrifoldeb am gefnogi a goruchwylio dysgwyr, gan gynnwys gweithredu i sicrhau ymddygiad derbyniol ar bob adeg.

**Noder:**

1. Fel teler o'ch cyflogaeth, efallai gofynnir i chi ymgymryd â dyletswyddau rhesymol eraill sy'n cyd-fynd â'ch gradd/lefel yn y Coleg.

2. Mae hwn yn ddisgrifiad o'r swydd yn ei chyfansoddiad presennol. Yn gyfnodol, bydd y Coleg yn ystyried disgrifiadau swydd cyflogeion a'u diweddaru i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r swydd yn ei gwedd go iawn neu i gynnwys y newidiadau sy'n cael eu hargymell. Cynhelir y weithdrefn hon ar y cyd gan bob rheolwr mewn ymgynghoriad â'r rhai sy'n gweithio iddo'n uniongyrchol. Felly, disgwylir i chi gymryd rhan mewn trafodaethau o'r math.

3. Nid bwriad y disgrifiad hwn yw gosod diffiniad cyflawn o'r swydd ond rhoi amlinelliad o'r dyletswyddau.

4. Gofynnir i bob aelod staff fod yn ymwybodol o'r Rheoliadau Ariannol. Gall Partneriaid Busnes Campws eu darparu.

## Manyleb y Person
## Darlithydd mewn Saesneg (TGAU / Sgiliau Hanfodol)

| Meini prawf | Hanfodol | Dymunol | Aseswyd trwy |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau a Chymwysterau Arbenigol** | | | |
| Gradd anrhydedd dda mewn Saesneg | ✓ | | Ffurflen gais |
| 5 cymhwyster TGAU, gan gynnwys Mathemateg a Saesneg neu gymwysterau cyfatebol | ✓ | | Ffurflen gais |
| Cymhwyster Safon Uwch mewn Iaith Saesneg, gradd C neu uwch | ✓ | | Ffurflen gais |
| TAR/Tystysgrif Addysg | ✓ | | Ffurflen gais |
| Dyfarniad Aseswr a Dilysydd Annibynnol neu barodrwydd i weithio tuag ato ymhen cyfnod penodol ar ôl cael eich penodi | | ✓ | Ffurflen gais |
| **Gwybodaeth** | | | |
| Hanes sylweddol a llwyddiannus o brofiad yn yr ystafell ddosbarth yn addysgu cyrsiau TGAU Iaith Saesneg mewn ysgol neu leoliad addysg bellach | ✓ | | Ffurflen gais |
| Profiad sylweddol a llwyddiannus o brofiad yn yr ystafell ddosbarth yn addysgu Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol mewn ysgol/dysgu seiliedig ar waith neu leoliad addysg bellach | | ✓ | Ffurflen gais |
| Tystiolaeth o sicrhau perfformiad ardderchog mewn arholiadau ar lefel TGAU | ✓ | | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Sgiliau da wrth reoli ystafell ddosbarth | ✓ | | Cyfweliad |
| Addysgu ar safon 'ardderchog' yn rheolaidd | ✓ | | Cyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tystiolaeth glir ac amlwg o rinweddau arweinyddiaeth | ✓ | | Cyfweliad |
| Sgiliau cyfathrebu ardderchog yn ysgrifenedig ac ar lafar | ✓ | | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Gwybodaeth gadarn am fanylebau newydd cymhwyster TGAU Iaith Saesneg | ✓ | | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Dealltwriaeth o weithdrefnau a phrosesau ansawdd | ✓ | | Cyfweliad |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd cyfraddau cwblhau a chadw | ✓ | | Cyfweliad |
| **Sgiliau a Rhinweddau** | | | |
| Sgiliau rhyngbersonol a chyflwyno ardderchog | ✓ | | Cyfweliad |
| Gallu gweithio dan bwysau a bodloni dyddiadau cau | ✓ | | Cyfweliad |
| Gallu cynllunio a threfnu'n effeithiol | ✓ | | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Gallu meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda chydweithwyr | ✓ | | Cyfweliad |
| Gallu defnyddio ystod o becynnau TG i wella dysgu ac addysgu | ✓ | | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Gallu llunio dogfennaeth a chofnodion o safon uchel | ✓ | | Ffurflen gais |
| **Gofynion Ychwanegol** | | | |
| Gallu teithio yn ôl yr angen i fodloni gofynion y rôl | ✓ | | Ffurflen gais |
| Gallu gweithio yn ystod y nosweithiau ac er mwyn cydymffurfio â gofynion amserlen sy'n newid | | ✓ | Cyfweliad |
| Parodrwydd i weithio ar unrhyw gampws Coleg Gwent | | ✓ | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Gallu siarad Cymraeg | | ✓ | Ffurflen gais |